



At: Bob Pennaeth Cynllunio

14 Mai 2018

Annwyl Gyfaill

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2018. Darparu offer band eang llinell sefydlog heb gymeradwyaeth ymlaen llaw ar dir Erthygl 1(5).

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod ichi am newidiadau i Ran 24 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, sy'n ymdrin â Chwmnïau Codau Cyfathrebu Electronig. Mae'r newid yn gysylltiedig â pharagraff A.2 (4A) o Ran 24, sy'n llacio'r gofyniad i gael cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer offer band eang llinell sefydlog ar dir Erthygl 1(5). Mae'r newid yn golygu bod y dyddiad lle nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw yn cael ei estyn o 30 Mai 2018 i 30 Mai 2019. Daw'r newid i rym ar 30 Mai 2018.


Cafodd y gofyniad i gael cymeradwyaeth ymlaen llaw mewn perthynas ag offer band eang llinell sefydlog (megis cabinetau, polion a llinellau telegraff) mewn ardaloedd gwarchoddedig ei lacio yn 2014 er mwyn cefnogi rhaglen Cyflymu Cymru a'i nod o ddarparu band eang i bob rhan o Gymru. Rhoddwyd terfyn amser ar y ddarpariaeth honno, gan olygu bod yn rhaid cwblhau unrhyw ddatblygiadau ar 30 Mai 2018 neu cyn y dyddiad hwnnw. Unwaith y byddai'r cymal hwnnw'n dod i ben, byddai'r gofyniad i roi cymeradwyaeth ymlaen llaw yn berthnasol unwaith eto pe byddai cwmni codau cyfathrebu electronig yn dymuno gosod offer ar gyfer band eang llinell sefydlog ar dir erthygl 1(5).

Er bod rhaglen Cyflymu Cymru yn dod i ben, mae'r angen i sicrhau bod band eang ar gael ledled Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd, yn parhau. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sefydlu menter newydd er mwyn parhau â'r cynnydd a wnaed eisoes gan Cyflymu Cymru.

Pwrpas diwygio'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yw pontio'r bwlch rhwng y darpariaethau presennol sydd â therfyn amser arnynt ac a fydd yn dod i ben ar 30 Mai, a'r adeg pan gwblheir adolygiad ehangach o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn

gynnar yn 2019. Bydd ymgynghoriad ar yr adolygiad ehangach, a fydd yn cynnwys Datblygiad Rhan 24 gan Gwmnïau Codau Cyfathrebu Electronig, yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y mis. Bydd yn cynnwys cynigion ar ddyfodol canolig i hirdymor hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer seilwaith band eang llinell sefydlog yng ngoleuni'r amcan parhaus i ddarparu band eang ledled Cymru. Felly, er mwyn parhau â'r gwaith hwn, bydd y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn parhau i ganiatáu gosod band eang llinell sefydlog heb gymeradwyaeth ymlaen llawn ar gyfer y cyfnod a nodir, neu tan i Ran 24 gael ei ddiwygio ymhellach o ganlyniad i Orchymyn diwygiedig y flwyddyn nesaf, os digwydd hynny'n gynt.

Yn gywir,



Neil Hemington

Prif Gynllunydd | Chief Planner

Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio | Planning Directorate

Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Department for the Economy, Skills and Natural Resources